# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 01-06 (p2)

### Dyddiad: 03 Mai 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (FfCSC)

#### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur sy'n gefndir i'w drafodaeth ar ymgynghoriad yr Adran Masnach a Diwydiant a'i ymateb iddo.

#### Crynodeb

2. Gofynnwyd am y papur hwn gan y Pwyllgor. Mae'n darparu gwybodaeth am ymgynghoriad cyhoeddus yr Adran Masnach a Diwydiant ar Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (FfCSC) y DU, sy'n cynnwys pennod am Gymru. Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal am 12 wythnos, o 28 Chwefror 2006 i 22 Mai 2006.

#### Y Cefndir

3. Diben y FfCSC yw pennu'r strategaeth eang ar gyfer gwariant Cronfeydd Strwythurol yn y DU a chynnig fframwaith cyfeirio i ddatblygu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol ar gyfer y cyfnod 2007 – 2013. Mae'r bennod am Gymru yn cynnwys dadansoddiad o economi Cymru a'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gwariant Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol yng Nghymru.

4. Mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi datblygu'r Fframwaith gan gydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb dros Gronfeydd Strwythurol. Mae'n cynnwys ffocws cryf ar weithgareddau i hybu menter, arloesi, cymunedau cynaliadwy, datblygu cynaliadwy, sgiliau a chyflogaeth i gefnogi agendâu Lisboa a Göteborg

5. Yn ogystal â gwahodd sylwadau ar y Fframwaith Cenedlaethol drafft, mae Llywodraeth y DU hefyd yn ceisio safbwyntiau am ddau fater cysylltiedig: y cynigion ar gyfer dosbarthu dyraniadau Cronfeydd Strwythurol o dan yr Amcan Cystadleurwydd newydd; a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer cyflwyno'r Cronfeydd yn ystod y cylch cyllidebol nesaf.

6. Lluniwyd y bennod ddrafft am Gymru yn y FfCSC gan fy swyddogion gan weithio'n agos â Grwp Rhanddeiliaid Allanol Ôl-2006 a'r ffrydiau gwaith arbenigol a sefydlwyd i lywio datblygiad y Rhaglenni Gweithredol.

7. Daw prif themâu a blaenoriaethau'r bennod hon o'r fframwaith datblygu economaidd cenedlaethol

diwygiedig, Cymru: Economi yn Ffynnu, Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005 a pholisïau perthnasol eraill. Adeiladwyd y blaenoriaethau hyn ar yr egwyddorion allweddol ar gyfer rhaglenni datblygu rhanbarthol newydd, y cytunwyd arnynt gan y Cabinet, yn 2005.

8. Mae'r bennod am Gymru yn y FfCSC yn cynnig y cyd-destun cynllunio cyffredinol ar gyfer datblygu'r Rhaglenni Gweithredol mwy manwl. Mae fy swyddogion yn drafftio'r rhain ar hyn o bryd, gan ymgynghori â rhanddeiliaid allanol.

## Ymgynghoriadau

9. Lansiwyd yr ymgynghoriad FfCSC gan yr Adran Masnach a Diwydiant ar 28 Chwefror, a bydd yn cael ei gynnal tan 22 Mai 2006. Gellir gweld copi o'r bennod am Gymru yn Atodiad 1. Gellir mynd at ddogfen ymgynghori gyfan y DU yn uniongyrchol drwy wefan yr Adran Masnach a Diwydiant [www.dti.gov.uk/europe/nsrf.html] neu drwy wefan WEFO [http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?action=page&ID=1564].

10. Cyhoeddwyd Cymru: Economi yn Ffynnu ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Tachwedd 2005 ac mae'n nodi'r fframwaith strategol ar gyfer parhau i ddatblygu economi gynaliadwy a deinamig yng Nghymru. Daw cryn dipyn o'r bennod am Gymru yn y FfCSC o'r ddogfen hon.

11. Daeth yr ymgynghoriad ar Cymru: Economi yn Ffynnu i ben ar 28 Chwefror 2006. Cafwyd cytundeb cyffredinol gan yr ymgyngoreion ar y blaenoriaethau yn Cymru: Economi yn Ffynnu. Roedd llawer o'r sefydliadau yn disgwyl i Gynllun Gofodol Cymru fod yn allweddol o ran nodi blaenoriaethau strategol. Roedd llawer o ymgyngoreion hefyd yn teimlo na ddylid colli'r potensial am fentrau lleol effeithiol wrth bwyso am brosiectau strategol.

12. Er bod yn rhaid i ymgynghoriad y FfCSC osgoi dyblygu ymgynghoriad Cymru: Economi yn Ffynnu, gwahoddwyd 269 o randdeiliaid allweddol yn uniongyrchol i roi sylwadau ar y ddogfen.

13. Adolygir testun yr NSRF yng ngoleuni'r ymgynghoriadau hyn a mabwysiadu rheoliadau'r Gronfa Strwythurol a Chanllawiau Strategol y Gymuned. Yna bydd fersiwn terfynol dogfen NSRF y DU yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

## Rhaglenni Gweithredol

14. Rwyf yn rhagweld y bydd y Rhaglenni Gweithredol drafft ar gyfer Uno a rhaglen Adnoddau Dynol Cymru gyfan yn cael eu cyflwyno gerbron y pwyllgor ar 07 Mehefin, cyn eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

15. Y nod yw anfon y Rhaglen Weithredol ddrafft ar gyfer Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddarach yn yr haf.

16. Bydd nifer o ddigwyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn ategu'r ymgynghoriadau cyhoeddus ar y Rhaglenni Gweithredol yn yr haf.

## Goblygiadau Ariannol

17. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r papur hwn. Bydd y costau o redeg y ffrydiau gwaith yn cael eu talu allan o gyllidebau costau gweinyddu presennol a thrwy gyllid Cymorth Technegol Amcan Un. Mae swyddogion Cynllunio Cyllidebau Rhaglenni wrthi'n trafod ag Adran Gyllid WEFO, a phan fyddwn yn gwybod am ddyraniadau cyllid a goblygiadau unrhyw raglenni newydd, bydd gwybodaeth yn cael ei darparu.

## Themâu Trawsbynciol

18. Mae themâu trawsbynciol cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gymwys i holl weithgarwch y Cronfeydd Strwythurol presennol. Rhaid i bob prosiect sy'n gwneud cais am gyllid o dan y rhaglenni presennol, ac yn derbyn cyllid, ymdrin â'r tair thema hon gan ddangos sut y maent yn dylanwadu ar y prosiect neu'n cael eu hystyried ganddo.

19. Mae'r rheoliadau drafft ar gyfer unrhyw raglenni datblygu rhanbarthol yn rhagweld rôl barhaus ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Chyfle Cyfartal.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

20. Nodi cynnwys y papur hwn.

Andrew Davies, AC
Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau